Cymerwch ran yn y Diwrnod Hunlun Bysedd Croes



A group of people do crossed fingers at Manchester Art Gallery.

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol ddydd Mercher 19 Tachwedd i ddweud diolch yn fawr i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am wneud eich prosiect treftadaeth yn bosib.

Ddydd Mercher 19 Tachwedd bydd miloedd o bobl yn postio hunluniau bysedd croes ar draws y cyfryngau cymdeithasol i gydnabod eu grant gan y Gronfa Treftadaeth a chodi hwyl ar y cyd yngl?n â'r achosion da anhygoel y mae'r Loteri Genedlaethol yn eu hariannu.

Rydym yn edrych ymlaen at daflu sbotolau ar rai o'r prosiectau treftadaeth ysblennydd a gefnogwn. Ymunwch â'r sgwrs dreftadaeth ar-lein i ledaenu'r gair am eich prosiect a helpwch i gael **#BecauseOfYou / OherwyddChi** i drendio.

19 Tachwedd yw ein pen-blwydd ni – a phen-blwydd Y Loteri Genedlaethol – yn 31 oed a'r diwrnod cyntaf yr aeth tocynnau'r Loteri Genedlaethol ar werth yn ôl ym 1994. Ers hynny rydym wedi buddsoddi dros £8.9biliwn a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn mwy na 48,000 o brosiectau treftadaeth ar draws y DU.

Sut alla i gymryd rhan?

Rhannwch eich hunluniau bysedd croes ar unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol o'ch dewis gyda neges o ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a rhowch rywfaint o wybodaeth am eich prosiect treftadaeth. Gallech hefyd ddangos rhan o'r dreftadaeth, ein logo a'n brand yng nghefndir y llun, neu aelodau staff a gwirfoddolwyr eraill sy'n ymwneud â'r prosiect.

Tagiwch ni i mewn yn **@HeritageFundCYM** ar Instagram a Twitter/X, **@Cronfa Treftadaeth y Loteri Gen** ar Facebook a Linke

Lawrlw



Gallwch dynnu'ch hunlun bysedd croes gyda chydweithiwr, gyda'r dreftadaeth neu gyda'n logo.

Mynnwch ysbrydoliaeth

Chwilio am syniadau? Dyma rai postiadau drafft i'ch rhoi ar ben ffordd:

- **Instagram**: Mae'n Ddiwrnod Hunlun Bysedd Croes! Heddiw gyda @HeritageFundUK rydyn ni'n dathlu'r gwahaniaeth anferth y mae chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol yn ei wneud. #OherwyddChi mae [nodwch enw'r sefydliad] wedi [nodwch fanylion y prosiect]
- **Twitter/X**: Rydyn ni'n ymuno â @HeritageFundCYM / @HeritageFundUK i ddathlu'r Diwrnod Hunlun Bysedd Croes a dweud diolch yn fawr iawn wrth chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol! #OherwyddChi, mae ein prosiect yn [nodwch fanylion effaith y prosiect]
- **Facebook a LinkedIn**: Pen-blwydd Hapus i @Cronfa Treftadaeth y Loteri Gen / @The National Lottery Heritage Fund! Dyma Hunlun Bysedd Croes i helpu dathlu'r effaith anhygoel y mae arian a godwyd gan chwaraewyr y #LoteriGenedlaethol yn ei wneud bob dydd. #OherwyddChi, mae ein prosiect yn helpu i [nodwch fanylion effaith y

prosiect]

Mwy o fomentau i ddathlu gyda’n gilydd

Mae gennym fwy o fomentau drwy gydol y flwyddyn y gallwch chi gymryd rhan ynddynt, y maent wedi'u dylunio i helpu hyrwyddo'ch prosiect, cydnabod eich grant a rhannu treftadaeth ysbrydoliaethus ar-lein.

Dyddiadau sydd ar y gweill ar gyfer eich dyddiadur:

14 Ionawr 2026: Rhannwch eich hoff leoedd, gwrthrychau a storïau treftadaeth gyda ni ar ddiwrnod #TrysorauTreftadaeth.

7 – 15 Mawrth 2026: Cyfle i ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am wneud eich prosiect yn bosibl gydag Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol.



efyd mewn ...

Credyd: Royal Museums Greenwich.



Agored y Loteri Genedlaethol 2027

Participants in the New to Nature programme including future Game Changer, Lisa Manning.



30 prosiect dros 30 mlynedd